## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 8 o Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol 2003 ("y Ddeddf") yn rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol i ymdrin â chwynion ynghylch gwrychoedd neu berthi uchel sy'n effeithio'n andwyol ar y mwynhad a gaiff cymydog o'i eiddo.

Caiff perchennog neu feddiannydd eiddo domestig (yr "achwynydd") wneud cwyn ar y sail bod uchder gwrych neu berth sydd wedi'u lleoli ar dir y mae person arall yn berchen arno neu'n ei feddiannu yn effeithio'n andwyol ar y mwynhad rhesymol a gaiff yr achwynydd o'r eiddo. Rhaid gwneud cwyn i'r awdurdod lleol y mae'r tir y mae'r gwrych neu'r berth wedi'u lleoli arno yn ei ardal a rhaid amgáu gyda'r gŵyn ffi a bennir gan yr awdurdod lleol (yn ddarostyngedig i uchafswm a bennir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ("y Cynulliad Cenedlaethol"), mewn perthynas â gwrychoedd neu berthi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru).

Mae adran 71 o'r Ddeddf yn nodi'r amrywiol hawliau i apelio yn erbyn penderfyniadau awdurdod lleol o dan adran 68 o'r Ddeddf (gweithdrefn ar gyfer ymdrin â chwynion) ac o dan adran 70 o'r Ddeddf (tynnu'n ôl, hepgor neu lacio hysbysiadau adfer) ac yn erbyn unrhyw hysbysiad adfer a ddyroddir gan yr awdurdod lleol. Mewn perthynas â gwrychoedd neu berthi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, rhaid gwneud apêl i'r Cynulliad Cenedlaethol ("yr awdurdod apelau").

Yn ei swyddogaeth fel yr awdurdod apelau mewn perthynas â gwrychoedd neu berthi sydd wedi'u lleoli yng Nghymru, mae adran 72 o'r Ddeddf yn rhoi i'r Cynulliad Cenedlaethol y pŵer i wneud rheoliadau—

(a) i ddarparu gweithdrefn ar gyfer ymdrin ag apelau o dan Ran 8 o'r Ddeddf (gan gynnwys pennu ar ba seiliau y caniateir i apelau gael eu gwneud);

(b) i benodi person arall i wrando ar apelau a phenderfynu arnynt ("person penodedig"); ac

(c) i fynnu bod person penodedig yn cyflawni holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol neu unrhyw rai ohonynt mewn perthynas ag apelau o'r fath.

Caiff y Cynulliad Cenedlaethol ganiatáu neu wrthod apêl, yn llwyr neu'n rhannol. Os bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn caniatáu apêl, caiff ddiddymu neu amrywio'r hysbysiad adfer y mae'r apêl yn berthnasol iddo a chaiff hefyd ddyroddi hysbysiad adfer os bydd yr awdurdod lleol, pan oedd yn ymdrin â'r gŵyn wreiddiol, wedi penderfynu peidio â gwneud hynny. Ni waeth beth fydd ei benderfyniad ar yr apêl, caiff y Cynulliad Cenedlaethol gywiro unrhyw ddiffyg, camgymeriad neu gamddisgrifiad yn yr hysbysiad adfer gwreiddiol os yw o'r farn na fydd hynny'n peri anghyfiawnder.